Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg Comisiwn y Senedd:
## Adroddiad Blynyddol 2019-20

Gorffennaf 2020




www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **Cysylltu@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddCymru**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2020**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg Comisiwn y Senedd:
## Adroddiad Blynyddol 2019-20

Gorffennaf 2020



# Cynnwys

**Cyflwyniad ..... 6**

Rôl y Pwyllgor ..... 6

Gwaith ac ystyriaethau ..... 8

**Casgliadau a sylwadau ..... 10**

Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2018-19 ac Archwiliad Allanol ..... 10

Archwilio Mewnol ..... 11

Rheoli risg ..... 13

Fframwaith sicrwydd ..... 15

Edrych tua'r dyfodol ..... 15

Casgliad ..... 17

**Atodiad 1: Cylch Gwaith Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Senedd ..... 19**

**Atodiad 2: Adolygiadau Archwilio Mewnol a drafodwyd gan y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ..... 23**

# Cyflwyniad

*O 6 Mai 2020, newidiodd enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Senedd Cymru, a chyfeirir at y sefydliad yn gyffredin fel y Senedd. Er gwaethaf y teitl newydd hwn, ceir cyfeiriadau yn yr adroddiad hwn at y sefydliad fel y 'Cynulliad' i adlewyrchu'r ffaith ei fod yn edrych yn ôl dros y 12 mis cyn i'r enw gael ei newid.*

**1.** Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Comisiwn (y Pwyllgor) yn falch o gyflwyno'r adroddiad hwn ar ei waith yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020.

**2.** Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar waith y Pwyllgor mewn cysylltiad â threfniadau llywodraethu'r Comisiwn, a'i waith o ran rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a'r fframwaith sicrwydd. Mae'n tynnu sylw at gylch gwaith y Pwyllgor, y gwaith a gyflawnwyd a'r canfyddiadau a'r argymhellion cysylltiedig, yr hyn y mae'r Pwyllgor yn bwriadu canolbwyntio arno yn 2020-21, a'i gasgliadau cyffredinol.

**3.** Mae 2019-20 wedi bod yn flwyddyn arall o lwyddiant, her a newid sylweddol i'r Comisiwn. Yn ogystal â pharhau i ddarparu gwasanaeth a pherfformiad o safon uchel ar gyfer gweithgareddau busnes fel arfer, fel sydd i'w weld yn yr Adroddiad Dangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol (gweler paragraff 15) a chanlyniadau'r arolwg o Aelodau a'u staff, mae'r Comisiwn hefyd wedi cyflawni rhai darnau sylweddol o waith. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- gweithredu'r camau nesaf, a chynllunio camau gwaith yn y dyfodol ynghylch rhaglen ddiwygio'r Cynulliad, gan gynnwys:
  - Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) yn cael Cydsyniad Brenhinol ac yn dod yn Ddeddf ym mis Ionawr 2020; a'r
  - prosiect i newid yr enw o Gynulliad Cenedlaethol Cymru i Senedd Cymru neu Welsh Parliament, i'w adnabod yn gyffredin fel 'y Senedd', a ddaeth i rym ar 6 Mai;
- yr ymateb i'r Coronafeirws (Covid-19) a symud i'r cyfnod cloi, sefydlu Senedd 'rithiol' a dechrau gweithio o gartref.

## Rôl y Pwyllgor

**4.** Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu yng nghyswllt eu cyfrifoldebau yn ymwneud â rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu

corfforaethol. Mae'n gweithredu mewn rhinwedd gynghorol, ac nid oes ganddo bwerau gweithredol. Mae'n rhoi cyngor ynghylch pa mor gynhwysfawr a dibynadwy yw sicrwydd, ynghyd â'i uniondeb, gan gynnwys ffynonellau archwilio mewnol ac allanol. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor (**atodiad 1**) a'r **flaenraglen waith** wedi'u llunio'n unol â chanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi.

**5.** Mae **aelodaeth gyfredol** y Pwyllgor (Comisiynydd a thri Chynghorydd Annibynnol, gydag un ohonynt yn Gadeirydd) wedi'i hamlinellu ym mharagraff 61 o'r adroddiad hwn ac fe'i cyhoeddir ar wefan y Comisiwn. Yn ystod y flwyddyn, cafodd un aelod o'r Pwyllgor ei ddisodli wrth iddo ddod i ddiwedd ei dymor fel Cynghorydd Annibynnol. Roedd y canlynol hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn:

- Manon Antoniazzi – Prif Weithredwr a Chlerc (Swyddog Cyfrifyddu y Comisiwn)
- Nia Morgan – Cyfarwyddwr Cyllid;
- Dave Tosh – Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd;
- Siwan Davies – Cyfarwyddwr Busnes y Senedd;
- Arwyn Jones – Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu;
- Gareth Watts – Pennaeth Archwilio Mewnol/Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd;
- Ann-Marie Harkin – Arweinydd Ymgysylltu, Archwilio Cymru;
- Gareth Lucey – Rheolwr Archwilio, Archwilio Cymru;
- Kathryn Hughes – Rheolwr Risg a Llywodraethu; Clerc y Pwyllgor; a
- Ryan Bishop – Dirprwy Glerc y Pwyllgor.

Daeth swyddogion eraill y Comisiwn i gyfarfodydd yn ôl yr angen hefyd.

**6.** Cynhaliodd y Pwyllgor gyfarfodydd preifat gyda'r Pennaeth Archwilio Mewnol, yr archwilwyr allanol, a'r Prif Weithredwr a'r Clerc er mwyn sicrhau bod y berthynas rhyngddynt yn parhau'n effeithiol.

**7.** Mae'r Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad i'r Comisiwn drwy'r Comisiynydd ar ôl pob cyfarfod, ac yn cyhoeddi cofnodion y cyfarfodydd ar **wefan** y Comisiwn. Mae

Cadeirydd y Pwyllgor hefyd yn mynd i gyfarfod gyda'r Comisiynwyr i gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor cyn diwedd tymor yr haf.

## Gwaith ac ystyriaethau

**8.** Cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith yn ystod y flwyddyn, gyda'r flaenraglen waith yn llywio ei weithgarwch. Mae eitemau safonol ar yr agenda, ac eitemau eraill a ystyrir, yn adlewyrchu'r adrannau cyfrifoldebau a gofynion gwybodaeth a amlinellir yng nghylch gwaith y Pwyllgor (**atodiad 1**).

**9.** Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi nad oedd unrhyw faterion nac argymhellion arwyddocaol yn codi o'r archwiliad allanol o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn ar gyfer 2018-19 (gweler adran yr Adroddiad Blynyddol o dan Canfyddiadau a Sylwadau am fanylion pellach).

**10.** Adolygodd y Pwyllgor adroddiadau ar yr holl archwiliadau ffurfiol ac ymgynghorol a luniwyd drwy gydol y flwyddyn: mae rhestr o'r rhain i'w gweld yn **atodiad 2**, gyda manylion pellach yn yr adran Archwilio Mewnol o dan Canfyddiadau a Sylwadau. Hefyd cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau am gynnydd o ra y ffordd yr oedd rheolwyr yn gweithredu'r argymhellion cysylltiedig.

**11.** Yn ogystal ag adolygu Cofrestr Risg Gorfforaethol y Comisiwn yn rheolaidd, fe wnaeth y Pwyllgor barhau i fonitro effeithiolrwydd prosesau rheoli risg drwy gydol y flwyddyn. Fe wnaeth y Pwyllgor hefyd groesawu diweddariadau a thrafodaethau manwl ynghylch rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â seiberddiogelwch, diwygio'r Cynulliad a Brexit. Hefyd nododd symudiadau yn y proffil risg. Mae mwy o fanylion i'w gweld yn yr adran Rheoli Risg o dan Canfyddiadau a Sylwadau.

**12.** Mae'r Pwyllgor yn parhau i gymryd diddordeb brwd yn rheolaeth y Comisiwn o'i risgiau seiberddiogelwch. Yn ogystal â'r adolygiad archwilio mewnol a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2019, croesawodd y Pwyllgor sicrwydd a roddwyd gan swyddogion mewn ymateb i'w waith craffu yn ystod y flwyddyn (gweler paragraff 13 isod, a'r adran Rheoli Risg o dan y Canfyddiadau a'r Arsylwadau am fanylion pellach).

**13.** Fe wnaeth yr adran 'edrych ymlaen' yn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor ar gyfer 2018-19 dynnu sylw at sawl maes y byddai'r Pwyllgor yn parhau i gymryd diddordeb gweithredol ynddynt. Mae manylion gwaith y Pwyllgor o ran trafod y meysydd hyn i'w gweld isod:

- rhannwyd adolygiad y Pennaeth Archwilio Mewnol o strwythurau bwrdd llywodraethu'r Comisiwn gyda'r Pwyllgor;

- mae uwch swyddogion wedi cyflwyno gwaith ynghylch rheoli risgiau o amgylch seiberddiogelwch, rhaglen ddiwygio'r Cynulliad a Brexit ym mhob cyfarfod ar ffurf Cofrestr Risg Gorfforaethol y Comisiwn ac yn fanwl yn ystod gwaith archwilio ar y risgiau unigol ym mis Mehefin 2019, mis Hydref 2019 a mis Ionawr 2020 (gweler yr adran Rheoli Risg o dan y Canfyddiadau a'r Arsylwadau am fanylion pellach);

- rhannwyd cynigion ynghylch newid a threfniadau llywodraethu rheoli rhaglenni gyda'r Pwyllgor wrth iddynt gael eu gweithredu, a chwblhawyd adolygiad archwilio mewnol o'r trefniadau newydd a oedd, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, ar fin cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor; a

- roedd y Pwyllgor wedi cael diweddariadau mewn perthynas â'r strategaeth adeiladau yn y dyfodol hyd at y pwynt y cafodd ei dynnu o Gofrestr Risg Gorfforaethol y Comisiwn ym mis Hydref 2019.

**14.** Mae meysydd eraill a drafodwyd gan y Pwyllgor i'w gweld mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn.

**15.** Fe wnaeth y Pwyllgor adolygu'r Adroddiad Dangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol, a gyhoeddir fel rhan o **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn.** Cafodd y Dangosyddion Perfformiad Allweddol, sy'n canolbwyntio ar nodau a blaenoriaethau'r Comisiwn, eu hadolygu yn 2019, gan arwain at gyflwyno rhai mesurau heriol newydd i wella perfformiad mewn nifer o feysydd a nodwyd. Bydd y mesurau 'ymestyn' newydd hyn yn cael eu hadolygu'n flynyddol. Mae'r Comisiwn yn parhau i berfformio ar lefel uchel, gyda'r mwyafrif o'r targedau'n cael eu cyflawni. Nododd y Pwyllgor, lle na chyflawnwyd rhai o'r targedau 'ymestyn', fod cynnydd da wedi'i wneud ac y bydd gwaith yn parhau i wella yn y meysydd hyn at y dyfodol. Mae Bwrdd Gweithredol y Comisiwn hefyd yn adolygu diweddariadau chwarterol ar gynnydd rhaglenni a phrosiectau newid.

**16.** Yn ogystal â busnes ffurfiol y Pwyllgor, fe wnaeth yr aelodau hefyd gefnogi'r Comisiwn ar agweddau ar lywodraethu a sicrwydd yn ystod y flwyddyn. Mae'r gwaith hwnnw wedi cynnwys y canlynol:

- mynychu cyfarfod tîm yr uwch reolwyr i graffu ar y datganiadau sicrwydd a ddarperir gan bob Cyfarwyddwr ar gyfer Datganiad Llywodraethu'r Swyddog Cyfrifyddu, a herio'r datganiadau hyn (gweler yr adran Fframwaith Sicrwydd am fanylion pellach);

- mynychu fforwm Cymru Gyfan ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio a chyflwyno'r canfyddiadau yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Ionawr 2020; a
- mynychu cyfres o sesiynau briffio ar ymwybyddiaeth seiberddiogelwch a gyflwynwyd gan ddarparwyr allanol.

**17.** Drwy gydol y flwyddyn, mae'r Pwyllgor yn cael diweddariad llywodraethu a sicrwydd ym mhob un o'i gyfarfodydd. Mae hyn yn cynnwys sicrwydd a diweddariadau pwysig ynghylch ystod o faterion gan gynnwys Cynllun Ymadael Gwirfoddol y Comisiwn, cydymffurfio â'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol, canlyniadau'r Adolygiad Capasiti a gynhaliwyd mewn blynyddoedd blaenorol ac adolygiad effeithiolrwydd o'r Bwrdd Gweithredol a'r Tîm Arweinyddiaeth.

# Casgliadau a sylwadau

## Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2018-19 ac Archwiliad Allanol

**18.** Cefnogodd y Pwyllgor y gwaith o lunio Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018-19, gan gynnwys cynghori ar yr adran 'defnyddio adnoddau'n ddoeth' a'r Datganiad Llywodraethu.

**19.** Croesawodd y Pwyllgor gyflwyniad cynnar yr Adroddiad Datganiadau Ariannol (ISA260) a'r Llythyr Rheoli. Roedd hwn yn archwiliad glân a syml gyda set o gyfrifon o ansawdd uchel. Ni chododd yr archwilwyr allanol unrhyw faterion perthnasol, a rhoddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiad archwilydd diamod ar y datganiadau ariannol ym mis Gorffennaf 2019. Cafodd yr un argymhelliad ynghylch trefniadau pontio ar gyfer cynlluniau pensiwn budd diffiniedig ei ddatrys yn gyflym ac yn foddhaol.

**20.** Roedd y Pwyllgor yn gwerthfawrogi'r berthynas waith gref rhwng yr archwilwyr allanol a mewnol drwy gyfrwng y 'protocol cydweithio'. Mae'r protocol, sy'n cael ei adolygu a'i gyflwyno i'r Pwyllgor yn flynyddol, yn galluogi'r archwilwyr allanol i ddibynnu ar waith y gwasanaeth Archwilio Mewnol, gan gynnwys yr adolygiad o'r rheolaethau ariannol allweddol a threuliau'r Aelodau.

**21.** Gan adeiladu ar drefniadau llwyddiannus y blynyddoedd blaenorol, mae'r Pwyllgor yn falch bod y Comisiwn a'r archwilwyr allanol wedi cytuno i ailadrodd y broses gyflymach ar gyfer Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20, gan gynnwys paratoi cyfrifon dros dro.

**22.** Bydd y Pwyllgor yn parhau i gydweithio'n agos â'r archwilwyr allanol er mwyn sicrhau bod y prif systemau a rheolaethau ariannol a'r gweithdrefnau sy'n ategu'r broses o baratoi'r cyfrifon yn parhau i fod yn gadarn. Mae cadw ffi Archwilio Cymru ar yr un lefel am y bedwaredd flwyddyn yn olynol yn adlewyrchu pa mor gymwys yw'r Comisiwn o ran rheoli'r broses gyfrifyddu a gwelliant parhaus mewn arferion gwaith.

**23.** Fe wnaeth y Pwyllgor groesawu cael gweld fersiwn ddrafft o Ddatganiad Llywodraethu 2018-19 yn gynnar ym mis Mawrth 2019 ac roedd o'r farn bod hwn yn ddatganiad trylwyr ac yn adlewyrchiad gwir a gonest o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Comisiwn dros y flwyddyn. Cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau ar feysydd a nodwyd yn Natganiad Llywodraethu y flwyddyn flaenorol drwy gydol y flwyddyn drwy adrodd ar risgiau corfforaethol, rheolaeth ariannol, prosiectau mawr ac adroddiadau archwilio mewnol y Comisiwn.

**24.** Hefyd, croesawodd y Pwyllgor y ffaith y cafodd weld yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn gynnar, gan gynnwys Datganiad Llywodraethu drafft 2019-20, yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2020.

## Archwilio Mewnol

**25.** Caiff gwasanaeth Archwilio Mewnol y Comisiwn ei reoli gan y Pennaeth Archwilio Mewnol, sy'n gyfrifol am ganlyniadau'r holl archwiliadau mewnol. Mae'r Pwyllgor yn falch bod proffil archwilio mewnol ar draws y Comisiwn wedi parhau i ddatblygu a bod rheolwyr yn ei weld fel peth cadarnhaol, fel sydd i'w weld yn y ffordd y mae argymhellion wedi cael eu gweithredu. Caiff y rôl ei chefnogi gan gymorth allanol, a ddarperir ar hyn o bryd gan TIAA sy'n helpu i sicrhau annibyniaeth y gwaith archwilio.

**26.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r camau a gymerwyd yn yr holl feysydd a adolygwyd ac yn cymeradwyo'r ffaith y parhawyd i roi ffocws pendant ar sut y mae'r rheolwyr yn gweithredu argymhellion yr archwilwyr mewnol. Mae'r Pwyllgor yn adolygu adroddiadau ar hynny ym mhob cyfarfod. Cafwyd sicrwydd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol bod yr holl argymhellion o flynyddoedd blaenorol wedi'u cwblhau a bod argymhellion 2019-20 naill ai wedi'u cwblhau neu wrthi'n cael eu cwblhau.

**27.** Fe wnaeth y Pwyllgor adolygu adroddiadau ar gyfanswm o saith archwiliad ffurfiol a dau archwiliad ymgynghorol. Caiff manylion yr archwiliadau hyn a'u sgoriau sicrwydd eu rhestru yn **atodiad 2**.

**28.** Trafododd y Pwyllgor adroddiad archwilio mewnol ar weithdrefnau a system rheoli absenoldeb y Comisiwn ym mis Hydref 2019, a chydnabu'r adlewyrchiad cadarnhaol o'r rheolaethau sydd ar waith. Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad pellach ar weithredu argymhellion yr archwiliad yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2020.

**29.** Fe wnaeth y Pwyllgor hefyd groesawu'r adolygiad cadarnhaol ar weithredu Cynllun Ymadael Gwirfoddol y Comisiwn, a weinyddwyd yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

**30.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod faint mae'r Coronafeirws (Covid-19) wedi tarfu ar waith archwilio eleni, a chyfraniad y Pennaeth Archwilio Mewnol o ran arwain ymateb y Comisiwn.

**31.** Un maes nad yw wedi cael ei ddatblygu fel y cynlluniwyd yw'r adolygiad o'r cymorth i bwyllgorau'r Cynulliad. Cafodd hyn ei oedi i ystyried y newid yn y swyddi Cyfarwyddwr a Phennaeth Gwasanaeth mewn perthynas â'r pwyllgorau yn y blynyddoedd blaenorol. Fe wnaeth Hugh Widdis yn arbennig nodi ei fod yn disgwyl gweld hyn yn bwrw ymlaen cyn gynted â phosibl.

**32.** Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol Adroddiad Blynyddol ar Dwyll i'r Pwyllgor, a nododd na ddaeth unrhyw achosion o weithgaredd twyllodrus gwirioneddol neu a amheuir at sylw Archwilio Mewnol yn 2019-20. Hefyd, ni chafwyd unrhyw ddatgeliadau chwythu'r chwiban yn fewnol.

**33.** Mae Barn ac Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol 2019-20 yn nodi y gall y Swyddog Cyfrifyddu gymryd sicrwydd cymedrol bod trefniadau i sicrhau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol wedi'u cynllunio a'u cymhwyso'n effeithiol yn effeithiol. Roedd y Pwyllgor o'r farn bod yr adroddiad yn asesiad da o waith a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a bod yr argymhellion yn effeithiol.

**34.** Cadarnhaodd yr adroddiad hwnnw fod yna gydymffurfiaeth â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a'r Siarter Archwilio Mewnol.

**35.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon â'r sicrwydd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol bod lefel yr adnoddau a ymrwymir i'r Cynllun Archwilio yn parhau i fod yn ddigonol, gan nodi hefyd y gwytnwch ychwanegol a geir o'r ffaith bod aelod o'i dîm wedi cwblhau arholiadau Archwilio Mewnol Ardystiedig yn llwyddiannus. Mae'r Pwyllgor hefyd yn parhau i fod yn fodlon bod annibyniaeth y rôl yn cael ei gwarchod heb unrhyw wrthdaro buddiannau wrth gynnal yr archwiliadau.

**36.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn croesawu ymrwymiad y Pennaeth Archwilio Mewnol i'w ddatblygiad proffesiynol parhaus ac i fod yn aelod o rwydweithiau proffesiynol, ac yn benodol, ei ymgysylltiad agos parhqaus â deddfwrfeydd eraill y DU.

## Rheoli risg

**37.** Fe wnaeth y Pwyllgor barhau i fonitro effeithiolrwydd y prosesau rheoli risg, a chraffu ar y gwaith o nodi risgiau allweddol, pennu eu difrifoldeb a'u lliniaru. Roedd ansawdd yr adroddiadau risg a gafodd yn hwyluso'r gwaith hwn. Fe wnaeth y Comisiwn barhau i adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn ystod y flwyddyn, ynghyd ag ymarferion rheolaidd o edrych tua'r gorwel.

**38.** Yn ogystal ag adolygu proffil risg corfforaethol y Comisiwn ym mhob cyfarfod, cynhaliodd y Pwyllgor adolygiadau manwl o'r risgiau corfforaethol a ganlyn. Roedd yr uwch swyddogion perthnasol (Cyfarwyddwyr a/neu Benaethiaid Gwasanaeth) yn bresennol i gyflwyno statws y risgiau, y safbwynt diweddaraf o ran eu lliniaru ac ateb cwestiynau gan y Pwyllgor:

- Seiberddiogelwch (mis Mehefin 2019 gyda diweddariad ym mis Hydref);
- Brexit (mis Hydref 2019); a
- Diwygio'r Cynulliad (mis Ionawr 2020).

**39.** O ganlyniad i waith craffu manwl ar y risgiau hyn, roedd yr uwch swyddogion a oedd yn bresennol yn gallu rhoi sicrwydd pellach i'r Pwyllgor eu bod yn cael eu rheoli'n effeithiol.

**40.** Nododd y Pwyllgor fod gwaith sylweddol yn cael ei wneud i liniaru risgiau seiberddiogelwch, ac anogodd y Comisiwn i ganolbwyntio'n briodol ar hyn, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth gyda'r Aelodau a'u staff cymorth yn eu swyddfeydd etholaethol. Mae gwasanaeth TGCh y Comisiwn wedi cadarnhau na chafwyd unrhyw achosion seiberddiogelwch a arweiniodd at danseilio diogelwch data yn 2019-20. Bydd seiberddiogelwch yn parhau'n rhan o'r cynllun archwilio mewnol blynyddol, ac ar gais y Pwyllgor, caiff diweddariadau ar liniaru risgiau seiberddiogelwch eu cyflwyno bob chwe mis.

**41.** Croesawodd y Pwyllgor grynodebau manwl o'r cynnydd ar reoli risgiau sy'n gysylltiedig â rhaglen ddiwygio'r Cynulliad, a gyflwynwyd ym mhob cyfarfod drwy'r Gofrestr Risg Gorfforaethol. Roedd y diweddariadau hyn yn cynnwys manylion am ddull gweithredu'r Comisiwn yn y cyfnod cyn cael Cydsyniad Brenhinol i'r Ddeddf Senedd ac Etholiadau ym mis Ionawr 2020 a gweithredu elfennau penodol o'r

rhaglen ddiwygio, gan gynnwys y newid enw a ddaeth i rym ar 6 Mai. Fel y nodwyd uchod, fe wnaeth y Pwyllgor hefyd drafod y risgiau hyn yn fanylach ym mis Ionawr 2020.

**42.** O ran y risgiau ynghylch Brexit, fe wnaeth y Pwyllgor hefyd groesawu’r sicrwydd manwl a gafodd ym mhob cyfarfod drwy'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ac yn fanylach yn ei gyfarfod ym mis Hydref.

**43.** Mae'r Pwyllgor hefyd wedi parhau i gymryd diddordeb brwd mewn cydymffurfio â GDPR. Mae'r Adroddiad Blynyddol gan yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth yn rhoi sicrwydd ymhellach bod risgiau gwybodaeth yn cael eu rheoli'n effeithiol. Yn ystod 2019-20, cafwyd un achos o golli data personol yr oedd yn rhaid adrodd amdano i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Penderfynodd Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth nad oedd angen cymryd camau pellach gan nad oedd yr achos yn cyrraedd meini prawf eu Polisi Gweithredu Rheoleiddio Diogelu Data.

**44.** Fel rhan o'i waith rheolaidd yn trafod Cofrestr Risg Gorfforaethol y Comisiwn, fe wnaeth y Pwyllgor hefyd drafod risg o ran disodli'r feddalwedd Legislative Workbench, a ychwanegwyd yn ystod y flwyddyn. Cydnabu'r Pwyllgor fod y risg y tu hwnt i reolaeth y Comisiwn i raddau helaeth, ond roedd yn fodlon â’r ffordd yr oedd uwch reolwyr yn mynd ati i liniaru'r risg, a chroesawodd y lle amlwg iddi ar y gofrestr risg.

**45.** Mae'r Pwyllgor wedi cael sicrwydd cadarn ynghylch y meysydd a ystyriwyd o'r diweddariadau y mae wedi'u cael yn y cyfarfodydd a thu allan iddynt. Mae presenoldeb swyddogion perthnasol yn y Pwyllgor a’u cyflwyniadau i lywio ei waith trafod wedi cael croeso mawr.

**46.** Mae'r Pwyllgor yn parhau i fod yn fodlon â'r prosesau sydd ar waith i nodi a rheoli risgiau corfforaethol allweddol ac mae o blaid parhau i gynnwys y risgiau ynghylch newid cyfansoddiadol ac urddas a pharch.

**47.** Ar ddiwedd y cyfnod adrodd, roedd gan chwe risg gorfforaethol sgôr difrifoldeb 'coch'. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod mai cyfle cyfyngedig sydd gan y Comisiwn i leihau effaith rhai o'r risgiau hyn ac mae'n eu monitro a'u lliniaru gymaint â phosibl.

**48.** Mae'r Pwyllgor o'r farn mai un o'r risgiau mwyaf sylweddol o hyd fydd effaith newid gwleidyddol, deddfwriaethol a chyfansoddiadol, a’r ymatebion i hyn, ochr yn ochr â chyflawni blaenoriaethau strategol uchelgeisiol y Comisiwn.

## Fframwaith sicrwydd

**49.** Mae fframwaith sicrwydd y Comisiwn yn gosod esiampl ac yn mapio'r ffynonellau sicrwydd gweithredol, corfforaethol ac annibynnol o'u cymharu â'r prosesau, risgiau a systemau mewnol ar gyfer pob gwasanaeth. Mae'r fframwaith yn seiliedig ar fodel 'tair llinell amddiffyn' Trysorlys EM ac yn dangos pa mor gryf yn gyffredinol yw ffynonellau sicrwydd y Comisiwn, yn ogystal â thynnu sylw at wendidau posibl. Caiff hyn ei adolygu fel mater o drefn i ddilysu trefniadau a'i ddefnyddio i lywio'r gwaith o ddrafftio datganiadau sicrwydd lefel gwasanaeth blynyddol.

**50.** Cafwyd haen arall o sicrwydd drwy bresenoldeb Cadeirydd y Pwyllgor hwn yng nghyfarfod tîm yr uwch reolwyr i herio a chraffu ar y datganiadau sicrwydd a ddarperir gan bob Cyfarwyddwr i lywio Datganiad Llywodraethu'r Swyddog Cyfrifyddu.

## Edrych tua'r dyfodol

**51.** Er bod y Pwyllgor yn cydnabod cryfder trefniadau risg, rheolaeth, llywodraethu a sicrwydd y Comisiwn yn ystod y flwyddyn, mae wastad cyfleoedd i fod yn fwy effeithlon ac effeithiol. O ganlyniad, ac yn ogystal â'i weithgaredd reolaidd, bydd y Pwyllgor yn cymryd diddordeb brwd yn y meysydd a ganlyn yn ystod 2020-21:

- unrhyw gamau gweithredu, materion o bwys ac argymhellion allweddol sy'n deillio o'r archwiliad o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn ar gyfer 2019-20;
- gwerthusiad o'r gwersi a ddysgwyd o ymateb y Comisiwn i'r Coronafeirws (Covid-19);
- rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ymateb y Comisiwn i'r newidiadau sylweddol y mae'n eu hwynebu o ran diwygio, newid cyfansoddiadol a Brexit, a'r risgiau cysylltiedig ynghylch canfyddiad y cyhoedd o'r newidiadau hyn;
- gwerthuso newid a threfniadau llywodraethu rheoli rhaglenni;
- rheoli risgiau seiberddiogelwch, gan gynnwys profi cynlluniau ymateb;
- yr adolygiad o'r cymorth i bwyllgorau'r Senedd;
- paratoadau ar gyfer etholiadau Senedd 2021; a

- datblygu cynlluniau ar gyfer ymgysylltiad a chyfathrebu allanol gwell, gan gynnwys proffil uwch a phresenoldeb cyfryngau cymdeithasol mwy ymatebol.

**52.** Mae angen i'r Pwyllgor hefyd edrych ymlaen a rhagweld materion, heriau a risgiau a allai godi yn y dyfodol, a hynny ar ben y rhai a nodwyd yn y flaenraglen waith. Ar hyn o bryd, mae'r Pwyllgor yn bwriadu mynd i'r afael â nifer o faterion sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys ymatebion y Comisiwn i gynaliadwyedd a newid hinsawdd a'r goblygiadau i'r Comisiwn o newidiadau ar ôl y cyfnod cloi, gan gynnwys effaith unrhyw ddirywiad economaidd. Bydd hefyd yn troi ei sylw at yr heriau o wella symudedd cymdeithasol, yn enwedig yng nghyd-destun cynrychiolaeth BAME yn y Senedd a'i staff.

**53.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn annog y Comisiwn i fanteisio'n llawn ar ddatblygiadau TGCh, yn enwedig ym meysydd deallusrwydd artiffisial a dadansoddi data. Mae gan y Comisiwn weithrediad TGCh profiadol a galluog iawn, sydd mewn sefyllfa dda i fanteisio ar dueddiadau sy'n dod i'r amlwg yn y maes hwn, ac mae'r Pwyllgor wedi annog y tîm i fanteisio'n llawn ar ei bartneriaeth â Microsoft i ymchwilio i dechnolegau newydd.

**54.** Mae offer deallus sy'n seiliedig ar wybodaeth yn dechrau cael eu defnyddio ym maes rheoli ariannol ac mae'r tîm cyllid eisoes wedi datblygu ei gymwysiadau ei hun mewn sawl maes, megis rhagolygon gwasanaethau ac adrodd ar lif arian, sydd wedi gwella cywirdeb a pherfformiad yn sylweddol. Mae gan Archwilio Cymru strategaeth tair blynedd i annog buddsoddiad ychwanegol mewn meddalwedd. Mae'n cynnig arweiniad ar-lein, gan gynnwys blog rheolaidd ar ddadansoddeg data, i gynorthwyo timau cyllid i ddod o hyd i gymwysiadau newydd. Mae cryn botensial hefyd yn y maes hwn i ddatblygu offer i wella cyflymder a chywirdeb ym maes archwilio, ac mae treialon yn cael eu cynnal ar hyn o bryd mewn cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Yn y pen draw, y nod yw caniatáu archwiliad di-bapur y gellir ei gynnal oddi ar y safle, a fydd yn golygu llai o amser a tharfu, sydd i'w groesawu.

**55.** Bydd y Pwyllgor yn parhau i roi sylw i ddatblygiadau yn y maes hwn ac yn annog buddsoddiad pellach mewn cymwysiadau a systemau sy'n cynnig y posibilrwydd o fuddion sylweddol o ran cynhyrchiant a pherfformiad yn y tymor canolig.

**56.** Mae'r Pwyllgor yn parhau i fod yn awyddus i fynd ar drywydd cyfleoedd i weithio gyda Bwrdd Gweithredol y Comisiwn a swyddogion eraill mewn meysydd

lle gall ychwanegu gwerth. Mae hyn yn cynnwys, ymysg pethau raill, trafodaethau ynghylch cynllunio strategol y Comisiwn ar gyfer y Chweched Senedd.

## Casgliad

**57.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod digon o dystiolaeth i roi sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Comisiwn ynghylch effeithiolrwydd cyffredinol yr amgylchedd risg, rheolaeth a llywodraethu. Yn wir, yn gyffredinol, mae lefelau sicrwydd yn y Comisiwn yn parhau i fod yn uchel. Mae'r ffynonellau sicrwydd hefyd yn gadarn ac yn ddibynadwy, fel y gwelwyd yn yr archwiliad allanol o gyfrifon, y Fframwaith Sicrwydd, a'r gwaith parhaus a'r Farn a'r Adroddiad Blynyddol gan Archwilio Mewnol.

**58.** Mae'r Pwyllgor yn diolch i'r Prif Weithredwr a'r Clerc, a'i staff, am eu hagwedd adeiladol a chydweithredol at waith y Pwyllgor dros y flwyddyn ddiwethaf. Drwy gydol y cyfnod, mae'r Pwyllgor wedi parhau i gael cysylltiadau gwaith da iawn gyda staff y Comisiwn ac wedi eu cael i fod yn agored ac yn barod i gael eu herio. Mae'r cymorth ysgrifenyddiaeth a ddarperir yn parhau i fod o'r radd flaenaf ac mae aelodau'r Pwyllgor yn ei werthfawrogi'n fawr.

**59.** Yn ystod y flwyddyn, daeth cyfnod Hugh Widdis fel aelod annibynnol o'r Pwyllgor i ben. Yn y cyfarfod ym mis Hydref 2019, gwnaeth Hugh gyflwyniad yn bwrw golwg ar ei rôl fel aelod annibynnol, a diolchodd i aelodau a swyddogion presennol a blaenorol y Pwyllgor am y diwylliant agored a chadarnhaol yr oedd wedi'i brofi fel aelod o'r Pwyllgor ers iddo ymuno ag ef yn 2013.

**60.** Hoffai'r Pwyllgor presennol gofnodi ein diolch i Hugh am ei gyfraniadau amhrisiadwy i'r Pwyllgor dros y chwe blynedd flaenorol a'r cymorth a'r cyngor a roddodd i aelodau newydd yn ystod y cyfnod pontio.

**61.** Mae'r aelodaeth gyfredol a manylion y newidiadau yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

- Robert Evans, Cadeirydd a Chynghorydd Annibynnol
- Suzy Davies AS, Comisiynydd
- Hugh Widdis, Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor (cyfarfod olaf mis Hydref 2019)
- Ann Beynon OBE, Cynghorydd Annibynnol ac aelod o'r Pwyllgor

- Aled Eirug, Cynghorydd Annibynnol ac aelod o'r Pwyllgor ers mis Tachwedd 2019

# Atodiad 1: Cylch Gwaith Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Senedd

**Mae'r Comisiwn yn sefydlu Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i'w gynorthwyo â'i gyfrifoldebau dros faterion risg, rheolaeth a llywodraethu. Ei rôl yw adolygu pa mor gynhwysfawr, dibynadwy a chywir yw'r sicrwydd a geir ac a yw'r sicrwydd hwn yn bodloni anghenion y Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu.**

## AELODAETH

**1.** Aelodau Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Senedd yw:

- **Suzy Davies**, AS, Comisiynydd;
- Tri **chynghorydd annibynnol**: **Robert Evans** (Cadeirydd), **Ann Beynon**; ac **Aled Eirug**.

## CYFLWYNO ADRODDIADAU

**2.** Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad i'r Comisiwn drwy'r Swyddog Cyfrifyddu ar ôl pob cyfarfod. Caiff cofnodion y cyfarfodydd eu cyhoeddi ar wefan y Comisiwn.

**3.** Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn mynd i gyfarfod y Comisiwn ym mis Gorffennaf ac yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol i'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu, a fydd wedi'i amseru i gynorthwyo â'r broses o orffen y cyfrifon a'r Datganiad Llywodraethu. Bydd yr Adroddiad Blynyddol yn crynhoi casgliadau'r Pwyllgor ar y gwaith a wnaeth yn ystod y flwyddyn.

## CYFRIFOLDEBAU

**4.** Bydd y Pwyllgor yn cynghori'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu ynghylch:

- y prosesau strategol ar gyfer risg, rheolaeth a llywodraethu;
- y Datganiad Llywodraethu;
- polisïau cyfrifyddu, cyfrifon, ac adroddiad blynyddol y Comisiwn, gan gynnwys y broses o adolygu'r cyfrifon cyn eu cyflwyno i'w harchwilio,

nifer y camgymeriadau a nodwyd, a llythyr yn cynnwys sylwadau'r rheolwyr i'r Archwilydd Cyffredinol;

- y gwaith archwilio mewnol ac allanol sydd wedi'i drefnu, a'r canlyniadau;
- a yw ymateb y rheolwyr i'r materion a nodwyd mewn gwaith archwilio yn ddigonol, gan gynnwys y Llythyr Rheoli ar gyfer gwaith archwilio allanol gan Archwilio Cymru;
- sicrwydd i'r Comisiwn o ran rheoli risg a llywodraethu corfforaethol;
- cynigion i dendro ar gyfer gwasanaethau Archwilio Mewnol neu i brynu gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio gan gontractwyr sy'n darparu gwasanaethau archwilio;
- polisïau gwrth-dwyll, prosesau chwythu'r chwiban, a'r trefniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig.

**5.** Bydd y Pwyllgor yn adolygu ei effeithiolrwydd ei hun o bryd i'r gilydd ac yn cyflwyno adroddiad ar ganlyniadau'r adolygiad hwnnw i'r Comisiwn.

## HAWLIAU

**6.** Yn amodol ar y cyllidebau y mae'r Comisiwn yn cytuno arnynt, caiff y Pwyllgor:

- gyfethol aelodau ychwanegol am gyfnod o hyd at flwyddyn (â chymeradwyaeth y Swyddog Cyfrifyddu) i ddarparu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad arbenigol;
- caffael cyngor ad-hoc arbenigol y telir amdano gan y sefydliad.

## MYNEDIAD

**7.** Bydd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol a chynrychiolydd Archwilio Cymru ryddid i siarad yn gyfrinachol â Chadeirydd y Pwyllgor unrhyw adeg.

## CYFARFODYDD

**8.** Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith bob blwyddyn. Caiff y Cadeirydd gynnull cyfarfodydd ychwanegol yn ôl yr angen.

**9.** Rhaid i o leiaf ddau aelod o'r Pwyllgor fod yn bresennol i sicrhau cworwm.

**10.** Fel arfer, bydd y Swyddog Cyfrifyddu, y Cyfarwyddwr Cyllid, Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd, y Rheolwr Risg a Llywodraethu, y Pennaeth Archwilio Mewnol a chynrychiolydd o Archwilio Cymru yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor.

**11.** Caiff y Pwyllgor ofyn i unrhyw swyddog arall fod yn bresennol i'w gynorthwyo â'i drafodaethau ar unrhyw fater penodol.

**12.** Caiff y Pwyllgor ofyn i unrhyw rai, neu i bawb, sy'n mynd i'r cyfarfodydd fel arfer ond nad ydynt yn aelodau, adael y cyfarfod er mwyn gallu cynnal trafodaeth agored a gonest ar faterion penodol.

**13.** Caiff y Comisiwn neu'r Swyddog Cyfrifyddu ofyn i'r Pwyllgor drefnu cyfarfodydd ychwanegol i drafod materion penodol y mae am gael cyngor y Pwyllgor yn eu cylch.

## GOFYNION GWYBODAETH

**14.** Bydd y Pwyllgor yn cael yr wybodaeth a ganlyn ym mhob cyfarfod:

- adroddiad yn crynhoi unrhyw newidiadau sylweddol yng Nghofrestr Risg Corfforaethol y Comisiwn;
- adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol yn crynhoi:
  - y gwaith a gwblhawyd (o'i gymharu â'r gwaith y bwriadwyd ei wneud);
  - y materion allweddol sy'n codi o'r gwaith Archwilio Mewnol;
  - ymateb rheolwyr i argymhellion adroddiadau archwilio;
  - newidiadau i'r cynllun archwilio blynyddol;
  - materion yn ymwneud ag adnoddau sy'n effeithio ar y gallu i roi'r cynllun Archwilio Mewnol ar waith;
- adroddiad gan gynrychiolydd Archwilio Cymru yn crynhoi'r gwaith a wnaed a'r casgliadau sy'n deillio ohono;
- adroddiadau sicrwydd y rheolwyr; ac
- adroddiadau ar reoli digwyddiadau/materion mawr, achosion a fu bron a digwydd a'r gwersi a ddysgwyd.

**15.** Pan fo hynny'n briodol, bydd y Pwyllgor Archwilio yn cael:

- cynigion ar gyfer cylch gorchwyl archwiliadau mewnol / y siarter archwilio mewnol;
- y strategaeth archwilio mewnol;
- Barn ac Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol;
- adroddiadau sicrwydd ansawdd ar y swyddogaeth archwilio mewnol;
- Strategaeth Archwilio flynyddol Archwilio Cymru;
- adroddiad ISA 260 Archwilio Cymru i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- cyfrifon drafft y Comisiwn;
- y Datganiad Llywodraethu drafft:
- Adroddiad Blynyddol yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth;
- adroddiad ar unrhyw newidiadau i bolisïau cyfrifyddu;
- llythyr rheoli Archwilio Cymru;
- adroddiad ar unrhyw gynigion i dendro am swyddogaethau archwilio;
- adroddiad ar gydweithredu rhwng archwilwyr mewnol ac allanol;
- Strategaeth Rheoli Risg y Comisiwn;
- adroddiadau ar achosion o dorri gwybodaeth a diweddariadau rheolaidd am seiberddiogelwch;
- manylion am reoli'r portffolio o raglenni / prosiectau newid allweddol; a
- chrynodeb o'r achosion o wyro oddi wrth y gweithdrefnau arferol.

# Atodiad 2: Adolygiadau Archwilio Mewnol a drafodwyd gan y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn

## Ebrill 2019

- Seiberddiogelwch (archwiliad ffurfiol – sicrwydd cymedrol)

## Mai 2019

- Treuliau Aelodau'r Cynulliad (archwiliad ffurfiol – sicrwydd sylweddol)

## Gorffennaf 2019

- Cynllun Ymadael Gwirfoddol (adolygiad ymgynghorol – dim barn)
- Bwrdd Gweithredol (adolygiad ymgynghorol – dim barn)

## Hydref 2019

- Rheoli Absenoldeb (archwiliad ffurfiol – sicrwydd cymedrol)

## Tachwedd 2019

- Ased Sefydlog (archwiliad ffurfiol – sicrwydd sylweddol)
- Caffael (archwiliad ffurfiol – sicrwydd cymedrol)

## Mawrth 2020

- Seiberddiogelwch (archwiliad ffurfiol – sicrwydd cymedrol)
- Newidiadau Rheoli Prosiect (archwiliad ffurfiol – sicrwydd cymedrol)

Dangosir diffiniadau ar gyfer barn sicrwydd yn y tabl isod. Mae'r rhain wedi'u hadolygu yn y flwyddyn ariannol gyfredol er mwyn eu gwneud yn unol â model sicrwydd Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth (GIAA).

Oherwydd y math o waith archwilio mewnol a wneir, nid yw bob amser yn bosibl rhoi barn ar sail asesiad o reolaethau – weithiau cofnodir casgliadau naratif a chaiff hyn ei egluro ym mhob adroddiad unigol.

| **Diffiniadau Sicrwydd** | |
|---|---|
| **Sylweddol** | Mae'r fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth yn ddigonol ac yn effeithiol. |
| **Cymedrol** | Mae angen rhai gwelliannau i wella digonolrwydd ac effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth. |
| **Cyfyngedig** | Mae gwendidau sylweddol yn y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fel y gallai fod, neu gallai ddod, yn annigonol ac yn aneffeithiol. |
| **Anfoddhaol** | Mae gwendidau sylfaenol yn y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fel y gallai fod yn annigonol ac yn aneffeithiol, neu'n debygol o fethu. |